Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant

Diweddariad ar weithredu a chyflwyno rhaglen Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant y Llywodraeth yn genedlaethol

Hydref 2026

Cynnwys

Pennod	Eitem	Rhif tudalen
1	**Rhagair y Gweinidog**	3
2	**Cefndir**	2
3	**Diweddariad ar gyflwyno**	6
3.1	Ehangu	6
3.2	Model gweithredu targed a gwaith dylunio	7
3.3	Llywodraethu rhaglenni a gweithio ar y cyd	8
3.4	Ymchwil, dysgu a monitro	8
4	**Cyflwyno'n genedlaethol**	10
5	**Y camau nesaf**	11
6	**Atodiad:** Ardaloedd Barnwr Teulu dynodedig a dyddiadau gweithredu	12

1. Rhagair y Gweinidog

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ar gyflwyno'n genedlaethol ym mis Mawrth, rwy'n falch o gyflwyno'r diweddariad hwn ar y rhaglen Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant ochr yn ochr â'r model gweithredu targed sydd newydd ei gyhoeddi.

Mae chwe blynedd bellach ers i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi Adroddiad y Panel Arbenigol ar 'Asesu Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat', a elwir yn gyffredin fel 'Adroddiad y Panel Niwed'. Mae'r adroddiad yn nodi gweledigaeth ar gyfer ymagwedd tuag at gyfraith breifat sy'n seiliedig ar ddiwylliant o ddiogelwch ac amddiffyn rhag niwed. Trwy ddarparu mwy o gefnogaeth i deuluoedd a galluogi penderfyniadau diogel heb oedi, mae cyflwyno'r Model Canolbwyntio ar Blant yn ein helpu i gyflawni'r weledigaeth honno ac ymrwymiad y Llywodraeth i haneru Trais yn erbyn Menywod a Merched o fewn degawd.

Disgrifiodd cyn-Lywydd yr Is-adran Teulu, Syr Andrew McFarlane, gyflwyno Llysoedd Sy'n Canolbwyntio ar Blant yn genedlaethol fel y 'newid mwyaf i lysoedd teulu mewn 30 mlynedd'. Ni fyddai'r newid hwnnw'n bosibl heb waith caled ac ymroddiad cymaint sy'n ymwneud â chynllunio a chyflwyno Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant ym mhob ardal leol. Mae'r model gweithredu targed, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r diweddariad hwn, yn nodi pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth rhwng yr holl weithwyr proffesiynol i gyflawni nid yn unig newidiadau i brosesau, ond hefyd y newid diwylliannol mawr sydd ei angen yn y llysoedd teulu.

Mae'r data, gan gynnwys yr wybodaeth reoli a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r diweddariad hwn, yn parhau i ddangos perfformiad cryf o ran prydlondeb a lleihau llwyth achosion heb eu datrys. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y model wrth wella profiad plant a theuluoedd sy'n ymwneud ag achosion cyfraith breifat, ac yn hollbwysig, i gyflawni canlyniadau gwell. Wrth i'w gyflwyno'n genedlaethol fynd rhagddo, byddwn yn parhau i ddilyn dull cydweithredol, gan ddefnyddio adborth a phrofiadau blant, teuluoedd ac ymarferwyr i sicrhau bod y model yn gweithio'n effeithiol yn ymarferol.

Mae'r Llywodraeth wedi neilltuo £17m i helpu ehangu Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant mewn 11 ardal llys newydd yn 2026/2027, gan fwy na dyblu nifer yr ardaloedd sy'n gweithredu'r model. Mae manylion y cyllid ar gyfer yr 21 ardal llys sy'n weddill yn amodol ar gadarnhad terfynol, ond rydym yn hyderus y bydd y model ar waith ledled Cymru a Lloegr erbyn diwedd cyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn.

Yn ogystal â Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant, rydym hefyd yn bwrw ymlaen â rhaglen ddiwygio ehangach, sy'n cynnwys diddymu'r rhagdybiaeth o gyfranogiad rhieni, gweithredu Cyfraith Jade, a diwygio hawliau cyplau sy'n cyd-fyw. Gyda'i

gilydd, bydd y mesurau hyn, ochr yn ochr â rhaglenni gwaith eraill sydd i'w cynnwys yn ein strategaeth cyfiawnder teuluol arfaethedig, yn helpu i wneud y system cyfiawnder teuluol yn fwy diogel, yn decach ac yn fwy effeithlon. Bydd y blynyddoedd nesaf yn heriol ond byddant yn gyfle pwysig i gyflawni newid parhaol i deuluoedd.



Jake Richards AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol a'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Gyfiawnder Teuluol

2. Cefndir

Ym mis Mawrth 2026, cadarnhaodd y Llywodraeth y bydd y Model Canolbwyntio ar Blant, a elwid gynt yn Llwybr Cyfraith Breifat, yn cael ei ehangu ar draws Cymru a Lloegr gyfan erbyn diwedd cyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn. Mae hyn yn golygu y bydd y model yn weithredol ym mhob ardal llys teulu erbyn mis Mawrth 2029.

Mae'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant wedi'i gynllunio i wella profiadau a chanlyniadau i deuluoedd, yn enwedig oedolion a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae'n canolbwyntio ar ganfod risg yn gynnar, mwy o ymgysylltu â phlant a chymorth pwrpasol i ddioddefwyr, i gyd o fewn proses llys symlach. Pan fydd yn weithredol, bydd y model yn disodli'r Rhaglen Trefniadau Plant blaenorol ar gyfer achosion cyfraith breifat perthnasol.

Gweithredwyd y Model Canolbwyntio ar Blant fel elfen allweddol o ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder i adroddiad y Panel Niwed. Ers cyhoeddi adroddiad y Panel Niwed, mae adroddiadau eraill ar y llys teulu gan Women's Aid, Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield a swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig wedi cadarnhau'r angen i ddiwygio achosion cyfraith breifat.

Mae rhagor o fanylion am y model, pam ei fod wedi'i gyflwyno, pa bryd y bydd yn berthnasol, sut mae'n cael ei gyflawni, a'i fanteision i'w gweld yn y model gweithredu targed Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r diweddariad hwn ar gyflwyno.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r trydydd iteriad o wybodaeth rheoli ad hoc Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant. Mae hyn yn cwmpasu hyd achosion a llwyth achosion mewn safleoedd sy'n gadael ac rydym yn rhagweld mai hwn fydd y cyhoeddiad ad hoc terfynol, gyda data yn y dyfodol ar Lysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau rheolaidd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi.

3. Diweddariad ar Gyflwyno

3.1 Ehangu:

Ers diweddariad cyflwyno diwethaf y rhaglen ym mis Mawrth 2025, mae'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant wedi'i ehangu'n llwyddiannus i bum ardal llys arall. Ym mis Mehefin 2025, ehangwyd y model i Orllewin Swydd Efrog, dilynwyd hyn ym mis Tachwedd gan dair ardal yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr: Wolverhampton, Telford a'r Black Country; Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon; a Swydd Stafford. Yn fwyaf diweddar, ehangwyd y model i Hampshire ac Ynys Wyth ym mis Ionawr 2026. Mae hyn yn golygu bod y model bellach yn cyfrif am oddeutu chwarter y derbyniadau perthnasol ar gyfer achosion plant cyfraith breifat ledled Cymru a Lloegr. Mae'r rhestr lawn o'r ardaloedd sy'n gweithredu'r model wedi'i chynnwys yn yr atodiad.

Mae gweithredu llwyddiannus ar draws y pum ardal wedi arwain at wybodaeth werthfawr sydd wedi cadarnhau'r penderfyniad i gyflwyno Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn genedlaethol. Gorllewin Swydd Efrog yw'r ardal llys fwyaf, yn ôl derbyniadau cyfraith breifat, i weithredu'r model hyd yn hyn. Mae gwybodaeth rheoli yn dangos bod achosion yng Ngorllewin Swydd Efrog yn cael eu datrys mewn 19.6 wythnos ar gyfartaledd, 12 wythnos yn gyflymach na chyn gweithredu, ac mae'r llwyth achosion heb eu cwblhau wedi gostwng mwy na 25% yn y 3 mis hyd at Fehefin 2026 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2025.

Yr ehangu i dair ardal yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr oedd y tro cyntaf i ardaloedd llysoedd lluosog ddechrau ar y model ar yr un pryd. Dilynwyd dull rhanbarthol wrth ehangu, gan fod y tair ardal Gorllewin Canolbarth Lloegr a Hampshire ac Ynys Wyth yn agos i Birmingham a Dorset yn y drefn honno, lle'r oedd y Model Canolbwyntio ar Blant yn weithredol eisoes. Mae'r dull hwn wedi profi ei hun yn effeithiol drwy alluogi dysgu a rennir ac arweinyddiaeth o fewn rhanbarthau, gan gynnwys alinio ag ardaloedd gwasanaeth gweithredol Cafcass sy'n cynnwys mwy nag un ardal llys teulu.

Wrth i fwy o ardaloedd ddechrau cyflwyno'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant, rydym wedi gweithio i safoni'r broses y mae ardal yn symud o weithredu i gyflawni sefydlog. Dylai'r trawsnewidiad hwn ddigwydd o fewn 12 mis ar ôl i ardal ddechrau gweithredu'r model ac mae'n dibynnu ar leihau nifer digonol o achosion Rhaglen Trefniadau Plant "etifeddiaeth" sydd heb eu cwblhau. Mae cyflawni cyflwr sefydlog yn golygu nad oes angen wedyn am y capasiti ychwanegol dros dro sy'n ofynnol i reoli'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant ac achosion etifeddiaeth ar yr un pryd. Rydym yn ystyried ar wahân gyda phartneriaid y gofynion cyflawni cyflwr sefydlog cynyddol – yn enwedig ar gyfer Cafcass, Cafcass Cymru a gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a gyflwynwyd o dan y model.

Mae ehangu'r Model Canolbwyntio ar Blant yn digwydd yng nghyd-destun galw cynyddol am lysoedd teulu. Cynyddodd nifer yr achosion cyfraith breifat a ddechreuwyd 11% (i 14,833) ym mis Ebrill i Fehefin 2026 o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn 2025. Mae hyn yn golygu mwy o bwysau ar ardaloedd llysoedd sy'n paratoi i weithredu'r Model Canolbwyntio ar Blant wrth reoli nifer yr achosion sy'n weddill. Mae'r cynnydd yn y galw'n amrywio ar draws rhanbarthau a byddwn yn sicrhau bod ein dull o gyflwyno'n genedlaethol yn ystyried heriau lleol. Er gwaethaf y galw cynyddol, mae'r ardaloedd sy'n gweithredu'r Model Canolbwyntio ar Blant ar hyn o bryd yn parhau i fod ymhlith yr ardaloedd sy'n perfformio orau ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cyflwyno cenedlaethol fel un o'r ffyrdd o hybu gwydnwch ac effeithlonrwydd tymor hir y system cyfiawnder teuluol.

Yn allweddol, mae'r ardaloedd sy'n cyflwyno'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant hefyd yn sicrhau bod mwy o blant yn cymryd rhan yn yr achosion. Ledled Cymru a Lloegr yn y drefn honno, roedd cyfartaledd o 82% ac 87% o'r achosion a ddyrannwyd i Cafcass a Cafcass Cymru o dan y model yn cynnwys ymgysylltiad uniongyrchol â phlant, o'i gymharu â 30-37% ar draws y ddau ranbarth o dan y Rhaglen Trefniadau Plant. Mae hyn yn newid sylfaenol yn yr ymagwedd at gyfraith breifat ac yn cyflawni'r uchelgais i sicrhau bod plant yn cael eu clywed a'u bod yn gallu cymryd rhan ystyrlon mewn achosion sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau.

3.2 Model gweithredu targed a gwaith dylunio

Er mwyn gwireddu manteision y Model sy'n Canolbwyntio ar Blant yn llawn, mae'n bwysig ein bod yn galluogi ac yn sicrhau cysondeb, tryloywder ac atebolrwydd. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'r uchelgais system gyfan ar gyfer dyfodol achosion cyfraith breifat sy'n gwella'r profiad a'r canlyniadau i blant a theuluoedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio'n glos â'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â chyflawni i ddatblygu model gweithredu targed Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant. Wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r diweddariad hwn, mae'r model gweithredu targed yn cyflwyno'r achos dros newid, y broses, y dull amlasiantaethol, a gofynion cyflawni'r model Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant. Bydd cael model clir a chytunedig yn ein helpu i gyflawni mewn ffordd dryloyw ac ariannol gynaliadwy wrth gynnal safonau uchel yn gyson.

Ochr yn ochr â datblygu'r model gweithredu targed, rydym wedi gweithio â phartneriaid i gytuno ar dempledi safonol ar gyfer gorchmynion ac adroddiadau, deunyddiau ymarfer i helpu i ymgysylltu â phlant a'u cyfranogiad mewn achosion, a phrotocolau i hwyluso cydweithredu effeithiol rhwng asiantaethau. Bydd hyn yn sefydlu arferion cyson ac yn ein helpu i gyflwyno'n genedlaethol ar raddfa fwy, gan ganiatáu i safleoedd i fabwysiadu a gweithredu arferion da'r ardaloedd cyntaf yn effeithiol yn y dyfodol.

Mae'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant yn golygu trawsnewid sylweddol ac, ynghyd â phartneriaid, byddwn yn parhau i ganfod cyfleoedd i fireinio'r model ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar oblygiadau'r Model ar gyfer ystyriaethau polisi a gweithredol ehangach, parhaus o fewn achosion cyfraith breifat. Un enghraifft o waith meddwl a dylunio polisi yn y dyfodol yw'r hyn sy'n ymwneud â cheisiadau a wneir gan bartïon nad ydynt yn rhieni. Mae ymchwil gan Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield yn amcangyfrif bod partïon nad ydynt yn rhieni'n cyfrif am 10% o geisiadau cyfraith breifat plant. Rydym yn gweithio â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddeall profiadau'r grŵp hwn yn well o fewn y model ac yn disgwyl y bydd iteriadau o'r model gweithredu targed yn y dyfodol yn dilyn rhagor o waith ar hyn a materion eraill.

3.3 Llywodraethu rhaglenni a gweithio ar y cyd

Yn ganolog i'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant mae'r egwyddor bod canlyniadau gwell i blant a theuluoedd yn dibynnu ar weithio amlasiantaethol, mewn achosion unigol ac mewn perthynas â'r diwylliant a'r ymagwedd at achosion cyfraith breifat. Wrth i raddfa a chyflymder yr ehangu gynyddu, rydym wedi ceisio cryfhau strwythur y rhaglen fel bod dull aml-asiantaeth yn cael ei hwyluso a'i fabwysiadu ar lefel genedlaethol a lleol.

Ar lefel genedlaethol, rydym wedi cryfhau'r ymgysylltiad â phartneriaid cyflenwi a rhanddeiliaid sydd â diddordeb mwy cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys darparu fforymau i ymarferwyr cyfreithiol, y sector cam-drin domestig, ac eraill nad ydynt yn ymwneud mor uniongyrchol â gweithredu, i rannu adborth ar sut mae'r model yn gweithio'n ymarferol. Rydym hefyd yn gweithio â chydweithwyr yn yr Adran Addysg ac â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant i ddeall a rheoli'r rhyngweithio rhwng Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant a diwygiadau ehangach i ofal cymdeithasol plant. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ymgysylltu â chydweithwyr yn yr heddlu i annog dealltwriaeth gyson o rolau'r heddlu lleol o fewn y model a sut mae prosesau ar gyfer gwirio a datgelu, lle bo angen, yn helpu i ganfod risg a gwneud penderfyniadau mwy diogel.

Ar lefel leol, dylid cynnal y gwaith aml-asiantaeth a datrys problemau cynyddol a sefydlwyd drwy'r grŵp gweithredu lleol dros dro y tu hwnt i drosglwyddo i gyflwr sefydlog. Mae hyn yn galluogi ymateb cyflym pan fydd risgiau neu bwysau lleol yn dod i'r amlwg. Ochr yn ochr â phartneriaid, rydym yn datblygu proses lle gall ardal sy'n wynebu galw parhaus neu bwysau capasiti gytuno ar drefniadau wrth gefn lleol tymor byr i reoli cyflawniad a chael cymorth ar lefel genedlaethol i leddfu'r pwysau. Yn ychwanegol at drefniadau wrth gefn, byddwn yn parhau i weithio â phartneriaid i sicrhau bod gan ardaloedd lleol y trefniadau cywir ar waith i'w galluogi i ddatrys problemau ar y cyd a gwella ymarfer yn barhaus.

3.4 Ymchwil, dysgu a monitro

Ym mis Ionawr 2026, rhyddhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adroddiad ar "Understanding the Experience of Children and Famillies". Roedd yr adroddiad yn seiliedig ar ymchwil a wnaed gyda phlant a theuluoedd yn ardaloedd mabwysiadu cynnar Dorset a Gogledd Cymru. Gwelwyd cynnydd cadarnhaol tuag at greu proses sy'n canolbwyntio mwy ar blant, sy'n llai gwrthwynebol gyda chymorth gwell i oroeswyr cam-drin domestig. Roedd yr adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion ar ffyrdd o wella ymarfer, gyda llawer ohonynt wedi cael sylw yn y blynyddoedd ers i Dorset a Gogledd Cymru ddechrau'r model.

Er mwyn helpu i gyflwyno'n genedlaethol, rydym wedi sefydlu strategaeth ymchwil, dysgu a monitro i ddeall yn well sut mae'r model yn gweithio'n ymarferol ac i wneud gwelliannau amserol drwy gyflwyno cenedlaethol. Mae'r strategaeth hon yn dwyn ynghyd ddata ansoddol a meintiol gwell, dysgu ymarfer cyflym, ac ymchwil allanol wedi'i thargedu.

Mae cyflwyno Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant, ochr yn ochr â phorth cyfraith breifat newydd CThEM, yn gyfle i wella'r data sydd ar gael yn y system cyfiawnder teuluol. Rydym wedi gweithio â phartneriaid i ystyried y bylchau mewn adroddiadau presennol ac i flaenoriaethu metrigau newydd sy'n gysylltiedig â'r Model Canolbwyntio ar Blant. Mae hyn yn cynnwys mwy o ddata ar ymgysylltu â phlant, gwrandawiadau, a'r asesiad risg a'r cymorth sydd ar gael gan arbenigwyr cam-drin domestig. Byddwn yn cyfuno gwybodaeth reoli gan bob partner cyflenwi i greu darlun llawn o berfformiad. Bydd ein huchelgeisiau ehangach ar gyfer data y tu hwnt i gwmpas y Rhaglen Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Cyfiawnder Teuluol arfaethedig.

Wrth i'r model ehangu i fwy o ardaloedd, mae partneriaid yn cydweithio i gynyddu sylfaen dystiolaeth o adborth gan blant, teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen. Bydd y mewnwelediad hwn yn hybu'r ffrwd waith dysgu ymarfer, gan ein galluogi i ystyried sut mae gwahanol rannau o'r model yn cael eu cyflwyno a'r effaith gysylltiedig. Er enghraifft, mae'r rhwydwaith gwasanaethau cam-drin domestig a sefydlwyd ar gyfer darparwyr wedi tynnu sylw at fewnwelediad proffesiynol pwysig, gan gynnwys bod llawer o atgyfeiriadau yn ddatgeliadau tro cyntaf, lle nad yw dioddefwyr-oroeswyr wedi datgelu'r cam-drin a brofwyd ganddynt o'r blaen. Bydd mewnwelediad fel hyn yn helpu i gryfhau ymarfer, i lywio penderfyniadau cyflawni, ac annog diwylliant dysgu cynaliadwy wrth i'r model ehangu'n genedlaethol.

Ochr yn ochr â gwelliannau data a dysgu ymarfer, rydym wedi neilltuo £500,000 ar gyfer swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i arwain ail gam eu Mecanwaith Adrodd ac Adolygu Llys Teulu. Bydd yr ymchwil dull cymysg hwn yn ystyried tair o ardaloedd Llys sy'n Canolbwyntio ar Blant drwy arsylwi mewn llysoedd, ymgysylltu â phlant a goroeswyr cam-drin domestig, cyfweliadau ag ymarferwyr a dadansoddi

ffeiliau achos. Gyda'i gilydd, bydd yr allbynnau hyn yn arwain at welliant parhaus ac yn helpu i fireinio'r model drwy gydol broses o'i gyflwyno'n genedlaethol.

4. Cyflwyno Cenedlaethol

Ar hyn o bryd mae'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant yn weithredol mewn 10 o'r 42 ardal llys teulu yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn ehangu'r model i 11 ardal arall erbyn dechrau 2027. Ym mis Tachwedd 2026, bydd wyth ardal llys ar draws gogledd-ddwyrain, gogledd-orllewin a chanolbarth Lloegr yn cyflwyno'r model. Dilynir hyn gan dair ardal arall yng nghanolbarth a de-ddwyrain Lloegr ym mis Ionawr 2027. Mae'r ehangu hwn yn golygu y bydd hanner yr holl ardaloedd llys teulu yn gweithredu'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026/2027. Byddwn yn parhau i ehangu'n raddol ac mae penderfyniadau ar gyflwyno yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Rhaglen traws-system fesul ardal drwy ystyried parodrwydd yr holl bartneriaid cyflenwi. Mae gennym feini prawf parodrwydd dynamig sy'n ystyried ystod eang o ffactorau i sicrhau bod y gweithredu'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n sicrhau bob holl bartneriaid y system y gallu ei gefnogi.

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi pennu dyddiadau cychwyn dangosol ym mis Ebrill 2027 ar gyfer 5 ardal llys arall ac mae paratoadau cychwynnol ar y gweill yn yr ardaloedd hyn. Fel gyda pharodrwydd, mae'r ardaloedd wedi'u dewis ar sail ystod eang o feini prawf, gan gynnwys adnoddau gwaith cymdeithasol, capasiti barnwrol a llysoedd, ac agosrwydd at ardaloedd sydd eisoes yn gweithredu'r model. Rydym wedi cytuno gyda phartneriaid y bydd y dull o gyflwyno ledled Lloegr yn cyd-fynd â ffiniau ardaloedd gwasanaeth gweithredol Cafcass. Mae hyn yn golygu y bydd pob ardal llys teulu o fewn yr un ardal gwasanaeth gweithredol Cafcass yn dechrau gweithredu'r model ar yr un diwrnod. Bydd y dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i reoli newid a dilyniant hyfforddiant cyson, symleiddio cyfathrebu, a helpu sefydliadau sy'n ymestyn ar draws ffiniau llysoedd teulu.

Rydym yn bwriadu gweithredu'r model yn Llundain – yn amodol ar asesiad o gapasiti a pharodrwydd – erbyn diwedd 2027. Gwyddom fod nifer uchel o achosion agored o dan y Rhaglen Trefniadau Plant yn golygu her sylweddol i'r system ar yr adeg y bydd y Model Canolbwyntio ar Blant yn dechrau oherwydd y bydd angen i weithwyr proffesiynol reoli dwy broses ar wahân. Mae gan Lundain rai o'r llwythi achosion mwyaf yn y wlad, ac er mwyn sicrhau dechrau llwyddiannus rydym wedi cynllunio cyfnod paratoi hwy ar draws y rhanbarth. Mae gwaith i leihau achosion etifeddiaeth ac ymgysylltu â holl bartneriaid y system eisoes wedi dechrau yn Llundain ac rydym yn anelu at gael grwpiau gweithredu lleol ar waith erbyn dechrau 2027.

Byddwn yn ehangu i'r ardaloedd sy'n weddill yn ne-ddwyrain a de-orllewin Lloegr erbyn mis Mawrth 2029. Er mwyn helpu â'r paratoadau, mae partneriaid eisoes yn cyflwyno newidiadau i ymarfer a phrosesau sy'n cyd-fynd yn well â ffyrdd o weithio'r Model sy'n Canolbwyntio ar Blant a bydd yn helpu â'r newid diwylliant sydd ei angen i ymgorffori diwygio llwyddiannus i gyflawni uchelgais y rhaglen. Bydd hyn yn

arbennig o bwysig wrth i'r galw am gyfraith breifat barhau i gynyddu ac wrth i ni ddysgu yn sgil arferion da yn yr ardaloedd presennol.

5. Y Camau Nesaf

Wrth i'r broses o gyflwyno'n genedlaethol fynd rhagddi, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'n unol â'r model gweithredu targed a cheisio deall yr effaith mae'r model yn ei chael ar blant a theuluoedd. Byddwn yn defnyddio dysgu o feysydd presennol ac yn parhau i weithio â phartneriaid a rhanddeiliaid o fewn y system cyfiawnder teuluol i ymateb i adborth a gwella ymarfer.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymdrech ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a gyflwynir drwy Lysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant yn cael eu hintegreiddio'n llawn i drefniadau gweithio aml-asiantaeth lleol ac yn gallu darparu cymorth effeithiol i ddioddefwyr-oroeswyr. Byddwn hefyd yn ystyried sut y dylid comisiynu a chynnal gwasanaethau cam-drin domestig yn y tymor hir, yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i ddiddymu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Bydd hyn yn bwysig i sicrhau bod y cymorth a gynigir yn parhau'n sefydlog, effeithiol ac yn cyd-fynd ag anghenion plant a theuluoedd.

Galwodd adroddiad y Panel Niwed am lawer mwy na newidiadau i'r weithdrefn a'r prosesau. Wrth i ni weithredu'r model, byddwn yn parhau i ystyried sut y gall hyfforddiant a ffyrdd amlasiantaethol o weithio, cymunedau ymarfer cryf, ac arweinyddiaeth draws-system, helpu i ymgorffori'r newid diwylliannol ehangach sydd ei angen i gyflawni uchelgais y Rhaglen Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddiwygio sy'n helpu i ganfod risgiau'n gynnar, sy'n ymgorffori cymorth cam-drin domestig arbenigol, ac sy'n sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud gyda phwyslais amlwg a diwyro ar lesiant ac amddiffyniad rhag niwed i blant a theuluoedd.

Drwy ymdrechion ar y cyd ar draws pob rhan o'r system cyfiawnder teuluol, mae cyflymder cyflwyno cenedlaethol wedi cyflymu'n sylweddol ers y diweddariad diwethaf i'w gyhoeddi. Bydd y flwyddyn nesaf yn gweld llawer mwy o ardaloedd yn gweithredu o dan y Model Canolbwyntio ar Blant ac felly, rydym yn rhagweld cyhoeddi diweddariad cyflwyno pellach cyn diwedd 2027.

6 Atodiad

Ardaloedd a dyddiadau gweithredu Barnwyr Teulu Dynodedig

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno ei huchelgais i ar gyfer cyflwyno'n genedlaethol o fewn y cyfnod Adolygu Gwariant presennol, erbyn 2029. Rydym yn bwriadu parhau â'r dull graddol o gyflwyno cenedlaethol, gan helpu â pharatoadau cynnar ym mhob rhanbarth ac asesu parodrwydd ardaloedd unigol trwy lywodraethu rhaglenni sy'n cynnwys cynrychiolaeth yr holl bartneriaid cyflenwi gweithredol. Yn achos dyddiadau ar ôl Tachwedd 2026, mae trafodaethau'n parhau a bydd penderfyniadau ffurfiol ar ddyddiadau lansio'n cael eu gwneud gan y Bwrdd Rhaglen gyda chytundeb y gweinidog cyfrifol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder cyn cyhoeddi dyddiadau terfynol.

Ardal Barnwr Teulu Dynodedig	**Dyddiad gweithredu**
Dorset Gogledd Cymru	21 Chwefror 2022 21 Chwefror 2022
De-ddwyrain Cymru Birmingham	29 Ebrill 2024 28 Mai 2024
Canolbarth a Gorllewin Cymru Gorllewin Swydd Efrog	3 Mawrth 2025 3 Mehefin 2025
Wolverhampton Stoke on Trent a Swydd Stafford Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon	11 Tachwedd 2025 11 Tachwedd 2025 11 Tachwedd 2025
Hampshire ac Ynys Wyth	6 Ionawr 2026
Coventry a Swydd Warwick Swydd Northampton Swydd Gaer a Glannau Mersi Swydd Gaerhirfryn Cumbria Gogledd Swydd Efrog Cleveland a De Durham Northumbria a Gogledd Durham	17 Tachwedd 2026 17 Tachwedd 2026 17 Tachwedd 2026 17 Tachwedd 2026 17 Tachwedd 2026 17 Tachwedd 2026 17 Tachwedd 2026 17 Tachwedd 2026
Swydd Gaerlŷr Swydd Lincoln Swydd Gaergrawnt a Peterborough	Ionawr 2027 i'w gadarnhau Ionawr 2027 i'w gadarnhau Ionawr 2027 i'w gadarnhau

Ardal Barnwr Teulu Dynodedig	Dyddiad gweithredu
Manceinion Fwyaf	Ch1 2027/2028 i'w gadarnhau
Hull a Humberside	Ch1 2027/2028 i'w gadarnhau
De Swydd Efrog	Ch1 2027/2028 i'w gadarnhau
Derby	Ch1 2027/2028 i'w gadarnhau
Nottingham	Ch1 2027/2028 i'w gadarnhau
Dwyrain Llundain	Ch3 2027/2028 i'w gadarnhau
Gorllewin Llundain	Ch3 2027/2028 i'w gadarnhau
Canol Llundain	Ch3 2027/2028 i'w gadarnhau
Cernyw	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Dyfnaint	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Bryste	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Swindon	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Taunton	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Caint	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Surrey a Sussex	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Essex	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Norfolk	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Milton Keynes	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Watford	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Luton	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau
Reading	Ch1 2028/2029 i'w gadarnhau